

Manylion ar gyfer cysylltu â ni

- **Rheolwr y Tîm**

Canolfan Adnoddau Maethu a Mabwysiadu'r Fro
14, Cigant Albert,
Penarth.
CF64 1DA
Ffôn: 02920 350954

Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/adoption
E-bost: Adoption@valeofglamorgan.gov.uk

- **Gwybodaeth Bellach**

Cewch lawrlwytho ein Datganiad o Bwrpas ar Fabwysiadu o wefan y Cyngor, neu os mynnwch, gallwn anfon copi caled atoch.

Cewch y daflen hon mewn fformat arall hefyd os oes gennych anghenion penodol.

Drwy lwc, rydym wedi dod o hyd i deulu newydd i Robert...

... wrth fyw gyda mam a thad newydd, byddaf yn dal i ddrysu a theimlo'n ofnus o bryd i'w gilydd. Mae angen help arna' i i wneud synnwyr o'r gorffennol – a dof i ben â hynny pan fydda' i dipyn bach yn h_n.

Rwy'n dal i feddwl am fy ngofalwyr maeth Helen a Marc a mam a dad. Mae fy rheulu newydd yn deall fy nhaith hyd yn hyn ac yn barod i deithio gweddill y ffordd gyda fi a rhannu'r adegau gwael yn ogystal â'r rhai da.

Mabwysiadu yn y Fro



**a allech CHI
fod yn gwmni i
Robert ar ei daith?**

...**ROBERT** yw f'enw i... Maen nhw'n dweud bo' ff'n mynd i gael fy mabwysiadu... **OND PAM 'NY?**

Ble mae mam a dad?

Rwy'n gweld eisiau fy ffrindiau a
'nghi bach.

Pam ydwi i'n byw gyda Marc a Helen?

Ydyn nhw'n fy hoffi i?

Rwy'n ffaelw'n deg â deall beth
sy'n digwydd?

Oes gobaith i fi weld fy mrawd a'm
chwaer eto?

Rwy'n teimlo'n drist ac yn unig...

Dyma'r union fath o gwestiynau, teimladau a meddyliau
a fydd gan blant fel Robert.

Ydych chi'n meddwl y gallech chi roi cartref i blentyn
sy'n gofyn cymaint o gwestiynau ac wedi drysu gymaint?

Os felly, dylech feddwl o ddiifrif am fabwysiadu.

Beth yw mabwysiadu?

Mae mabwysiadu'n broses gyfreithiol sy'n sicrhau bod
plant fel Robert yn cael lle am byth mewn teulu
newydd, pan fydd eu teuluoedd eu hunain yn methu â'u
magu.

**Pa fath o blant sy'n cael eu cynnig ar gyfer
eu mabwysiadu?**

- Plant fel Robert ar y cyfan – sef plant sydd mewn gofal
am na all eu teuluoedd eu hunain roi gofal a chartref
diogel iddynt.
- Mae'r rhan fwyaf o'r plant hyn dros ddwy oed.
- Maen nhw'n blant sydd wedi bod drwy
brofiadau a allai effeithio ar eu datblygiad, eu
hiechlyd a'u haddysg nes ymlaen.
- Weithiau bydd angen rhoi cartref i frawd
a chwaer gyda'i gilydd.
- Weithiau bydd pob math o anghenion
cymhleth gan blentyn.
- Bydd angen hefyd ddod o hyd i deuluoedd
ar gyfer plant o wahanol gefndir ethnig.

**Pwy sy'n cael gwneud cais am
fabwysiadu?**

- Pobl dros 21 oed o bob cefndir.
- Pobl sengl, parau priod, parau dibriod a
pharau o'r un rhyw.
- Pobl o bob math o gefndir ethnig a
chrefyddol.
- Pobl ar bob math o incwm.
- Pobl ddi-blant a phobl sy'n
magu eu plant eu hunain.

Yn bennaf oll, mae'n rhaid i chi
fod yn berson llawn cydymdeim-
lad sy'n ddigon sensitif i ddeall

bod gan blant fel Robert hanes arbennig.

Bydd yn rhaid i chi hefyd fod o ddiifrif am fabwysiadu ac
yn ddigon amyneddgar i fynd drwy'r broses asesu a phob
proses angenrheidiol arall.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Antonwch lythyr i'r asiantaeth fabwysiadu yn y
cyfeiriad isod, a byddwn yn fwy na bodlon ateb
unrhyw gwestiynau eraill sydd gennych. Os
mynnwch, gallwn hefyd drefnu i weithiwr
cymdeithasol profiadol ddod i'ch gweld.

Rydym yn addo y cewch ddigon o hyfforddi-
ant a chefnogaeth drwy gydol y broses.

